# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 13EG TACHWEDD, 2018**

Lleoliad

**Neuadd Dyfi, Aberdyfi, LL35 0NR**

Pwynt Cyswllt

**Sion Owen**

**01286 679665**

**sionmareduddowen@gwynedd.llyw.cymru**

(DIOSBARTHWYD 7/11/18)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Dewi Owen
Anne Lloyd Jones
Mike Stevens

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Councillor Bob Tyrrell | Cyngor Cymuned Aberdyfi |
| Nick Dawson | Aelod o Outward Bound Wales |
| David Williams | Aelod o Bwyllgor Gwelliannau Aberdyfi |
| Huw Evans | Aelod o Gymdeithas Psygodfeydd Bae Ceredigion |
| Nigel Willis | Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi |
| Desmond George | Aelod o Glwb Hwylio Dyfi |
| Cynghorydd Brian Bates | Aelod o Gymdeithas Cenedlaethol y Bad Achub |
| John Eddington | Aelod o Glwb Rhwyfo Aberdyfi |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Peter Read | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |
| Cynghorydd Rob Triggs | Cyngor Tref Abermaw |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2018-19.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2018-19.

**3. YMDDIHEURIADAU**

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. COFNODION** 4 - 9

Bydd y cadeirydd yn cynnig fod cofnodion cyfarfod diwetha y Pwyllgor Harbwr a gynhaliwyd ar Mawrth 22 2018 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir o’r cyfarfod.

**6. DIOGELWCH HARBWR**

I ystyried unrhyw faterion diogelwch harbwr.

**7. ADRODDIAD GAN YR UWCH SWYDDOG HARBYRAU** 10 - 27

I dderbyn adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**8. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

I nodi bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi yn cael ei gynnal ar Fawrth 5ed 2019.

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 22 Mawrth 2018 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

**Y Cynghorydd Dewi Owen – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones – Is-gadeirydd**

Y Cyng. Mike Stevens (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Bob Tyrrell (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr Brian Bates (Bad Achub), Mr Nick Dawson (Outward Bound), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Dyfi), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi)

**Sylwedyddion:** Mr Neil Storkey (Clerc/Sylwedydd ar ran Cyngor Cymuned Aberdyfi)
Ms Alison Kinsey, Cydlynydd FLAG

Hefyd yn bresennol:

Y Cyng. Ioan Thomas – Aelod Cabinet Economi

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Llyr Jones | - | Uwch Reolwr Economi a Chymuned) |
| Arthur F. Jones | - | Uwch Swyddog Harbyrau |
| Bryn P. Jones | - | Swyddog Morwrol Traethau |
| William Stockford | - | Harbwr Feistr Aberdyfi |
| Glynda O'Brien | - | Swyddog Cefnogi Aelodau |
| Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Mr Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig)

1. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 23 Tachwedd 2017.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

**4.1 Materion a godwyd o'r cofnodion**

Yng nghyswllt arwyddion diogelwch, cyfeirwyd at y ffaith bod y cofnodion yn nodi bod swyddogion y Gwasanaeth Morwrol wedi cynnal trafodaethau gyda "dau aelod lleol" ac roedd y Cynghorydd Mike Stevens, Aelod Lleol Tywyn, o'r farn nad oedd hyn wedi digwydd. Roedd ychydig yn ddig gan ei fod wedi llwyddo i ddenu noddwyr ar gyfer ariannu'r arwyddion ond oherwydd diffyg cyfathrebu fe gollwyd oddeutu £3,000 ar gyfer arwyddion i Dywyn.

Mewn ymateb, esboniodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned o safbwynt y cynllun bod oediad wedi bod ac ymddiheurwyd am hyn. Fodd bynnag, roedd y Gwasanaeth Morwrol yn cydweithio'n agos gyda'r Bad Achub oherwydd eu harbenigedd yn y maes. Ymgynghorwyd ar y cynllun ac fe dderbyniwyd sylwadau ond bod yr amserlen wedi llithrio ychydig ac fe fyddir yn ymgynghori gydag Aelodau Lleol Cyngor Gwynedd gyda'r bwriad o osod yr arwyddion cyn

gwyliau y Llungwyn. Gobeithir cysoni'r math o arwyddion a osodir ar hyd arfordir y Gogledd ac o fewn amserlen realistig.

Ychwanegodd Aelod bod y Gwasanaeth Morwrol wedi cysylltu gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn.

Nododd y Cynghorydd Mike Stevens bwysigrwydd i'r geiriad ar yr arwyddion fod yn addas a phenodol i wahanol leoliadau.

Talwyd teyrnged i'r gwaith gwirfoddol a wnaed gan Josh Cooper, Alice Beetlestone (Bad Achub) mewn ymgynghoriad gyda'r Harbwr Feistr, a rhagwelir y bydd yr arwyddion yn hynod effeithiol.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

5. <u>**ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**</u>

**(a)** Cyn cyflwyno yr adroddiad uchod, croesawyd Alison Kinsey, Cydlynydd Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Ceredigion, a oedd wedi gwneud cais i fynychu'r cyfarfod ac fe esboniodd bwrpas FLAG (Fisheries Local Action Group). Nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Bod 4 grwp yn weithredol yng Nghymru i bwrpas cefnogi'r diwydiant a chymunedau pysgota: St. Dogmael i Abermaw, Ynys Môn a Gwynedd, Bae Abertawe a Cleddau i'r Arfordir
- Bod FLAG yn derbyn arian Ewrop a bod oddeutu £160,000 ar gael i'w wario hyd at 2020 a hyderir y gellir gwneud defnydd ohono drwy roi gymorth i prosiectau bychan sydd yn cael eu harwain o'r gymuned
- Bod strategaeth wedi ei lunio yn seiliedig ar angen lleol
- Rhoddir blaenoriaeth ar gyfer ariannu prosiectau sydd yn:
    - ychwanegu gwerth
    - creu swyddi
    - denu pobl ifanc a
    - hyrwyddo arloesedd ym mhob cam o'r gadwyn gyflenwi o gynhyrchion pysgodfeydd
- Gellir cynnig cymorth ariannol refeniw at brosiectau megis:
  datblygu prosiectau, prosiectau peilot, astudiaethau dichonoldeb, hyfforddiant, mentora, hwyluso ac ymgynghori.

Bu i'r swyddog ymweld â Phwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw, ac yn deillio o'r cyfarfod hwnnw, roedd yr Aelodau yn frwdfrydig a chadarnhaol i gynnal gweithgaredd ar y cei yn Abermaw.

Nododd bod Mr Neil Storkey wedi ei benodi fel Cadeirydd un o'r grwpiau gweithredol ac yn rhinwedd ei swydd a'r ffaith y dysgwyd llawer o'r Wyl Fwyd a gynhaliwyd yn Aberdyfi y gellir defnyddio'r wybodaeth a'r profiadau hynny er budd cymunedau FLAG. Hyderir y gellir cynnal prosiectau / gweithgareddau ar y cei a hyrwyddo'r pysgotwyr lleol, yn enwedig gan ei bod yn Flwyddyn y Môr eleni.

**(b)** Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn diweddaru'r pwyllgor ar faterion rheolaethol yr Harbwr ac fe gyfeiriodd yr Uwch Swyddog Harbyrau yn ei absenoldeb at y materion penodol canlynol:

**(i) Cod Diogelwch Porthladdoedd**

Yn deillio o'r uchod, nododd Aelod ei fod o'r farn, nad oedd yr Archwilwyr wedi ymweld ar adeg prysur yn yr Harbwr megis ym mis Gorffennaf/Awst ac felly ddim wedi gweld y darlun cyfan a chywir.

Mewn ymateb gwnaed y prif bwyntiau isod:

(i) Eglurodd yr Uwch Swyddog Harbyrau nad y Gwasanaeth Morwrol oedd yn pennu'r dyddiad ac y gall yr Archwilwyr ddod unrhyw bryd yn ogystal ag ail-ymweld.
(ii) Esboniodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bwrpas yr ymweliad gan nodi mai'r prif nod ydoedd archwilio systemau'r Cyngor a threfniadau rheoli sydd ychydig yn wahanol o safbwynt prysurdeb y safle.
(iii) O safbwynt cyfrifoldeb y Cyngor pe byddai unigolyn yn baglu a chwympo dros ochr y cei, nodwyd bod gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol yn ymwneud â'r uchod a thynnwyd sylw nad yw'r côd yn statudol ac mai Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am reoli'r Harbwr. Ategwyd mai ystyried trefniadau rheolaeth y Cyngor wnaeth yr Archwilwyr yn hytrach na threfniadau gweithredol ar y tir.
(iv) Pwysig i nodi na all yr Harbwr Feistr fod ar gael bedair awr ar hugain.
(v) Bod llythyr wedi ei anfon i'r pysgotwyr i gadw'r Harbwr yn daclus.
(vi) Bod staff yr Harbwr yn gweithio'n ddiwyd i geisio cadw'r Harbwr mor daclus ag y gellir ond rhaid cofio ei fod yn adnodd ar gyfer gweithio hefyd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(ii) Materion Mordwyo**

Nododd yr Uwch Swyddog Harbyrau ei fod wedi bod mewn trafodaeth gyda'r contractwr angorfeydd ynglyn â'r uchod a hyderir y byddai'r gymhorthion mordwyo ar eu safle o fewn yr ychydig wythnosau nesaf.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(iii) Cynnal a Chadw**

Adroddodd yr Harbwr Feistr yn llafar ar ei Raglen Waith gan nodi ei fod wedi bod:

- yn gweithio ar y cymhorthion mordwyo
- yn ymdrin ag angorfeydd ymwelwyr
- yn adeiladu meinciau ar y cei
- yn brysur yn clirio llawer o sgerbydau anifeiliaid oddi ar y traeth
- yn cydweithio gyda grwp Tywyn Beach Guardians ar gyfer glanhau'r traethau
- yn ymdrin â chynhaliaeth cyffredinol o'r Harbwr cyn dechrau'r tymor

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd yr Harbwr Feistr bod y cerbyd yn cyrraedd erbyn Pasg.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nododd Aelod bod llawer o unigolion yn fodlon helpu i godi ysbwriel ac y byddai'n fuddiol pe byddai trefniadau cydlynus mewn lle ar gyfer casglu'r ysbwriel.
Dywedodd y Cynghorydd Mike Stevens, Aelod Lleol Tywyn, ei fod wedi gofyn am gynhwysydd sbwriel ar gyfer Tywyn.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol Traethau bod y Gwasanaeth wedi derbyn llif o geisiadau gan wahanol grwpiau a bod protocol i'w ddilyn ac mai dim ond adnoddau

cyfyngedig oedd gan y Gwasanaeth. Fe fyddir yn trefnu biniau addas ar gyfer Tywyn mewn lleoliad dynodedig ac y byddai'n briodol i'r Swyddog Morwrol Traethau drafod ymhellach gyda Rheolwr Glanhau Strydoedd ynglyn â threfniant ar gyfer Aberdyfi.

Ychwanegodd Aelod Lleol Tywyn bod llawer o unigolion yn fodlon glanhau'r traeth yn Nhywyn ac y dylid annog grwpiau o'r fath a bod yn rhagweithiol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(iv) Llwybr Pren**

Adroddod y Swyddog Morwrol Traethau y byddir yn archwilio'r llwybr pren yn dilyn y cyfarfod ac yn gwneud trefniadau i'w atgyweirio os yw hynny'n ymarferol. Ychwanegodd yr Harbwr Feistr ei fod wedi dirwyio ar lefel y tir a'i fod yn anwadal ac yn anniogel.

Ategodd sawl Aelod yr angen i'w atgyweirio a'i fod wedi bod yn destun trafodaeth ers blynyddoedd bellach. Cynigiwyd i'r swyddogion drafod ymhellach gyda'r Cyngor Cymuned er mwyn ystyried a fyddai modd i'r gymuned gyfrannu tuag at y costau atgyweirio oherwydd ei fod yn strwythur allweddol i gynnal y twyni. Nododd y Cadeirydd hefyd y byddai'n fuddiol trafod ymhellach gyda'r Clwb Golff ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Awgrymwyd y byddai o fantais pan yn atgyweirio i ddefnyddio strwythurau / pyst o wneuthuriad plastig.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(v) Taflen Traeth**

Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol Traethau at y daflen traethau ac annog yr Aelodau i anfon unrhyw sylwadau ar y cynnwys iddo.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- Awgrymwyd i gysylltu gyda Josh Cooper i gael llun o'r traeth
- y byddir yn neilltuo rhan o'r traeth ar gyfer unrhyw weithgaredd hwylio
- pe gellir nodi ar y daflen "ardal lansio"
- a ddylid nodi Ebrill – Medi ar gyfer yr ardal gwaharddiad cŵn

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(vi) Symud Tywod 2018**

Adroddwyd bod Cwmni Brodyr Jones ar y safle ar 12 Mawrth 2018 ar gyfer symud tywod ond roedd ychydig o bryder am rhan o sylfaen wal y cei. Hysbysebwyd pawb oedd yn gweithio yn yr ardal dan sylw ac fe ddisgwylir mwy o wybodaeth gan Ymgynghoriaeth Gwynedd / Cwmni Brodyr Jones yn hyn o beth.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(vii) Cynhwysyddion**

O safbwynt pryder am gyflwr nifer o'r cynhwysyddion ar gyfer cadw offer hwylfyrddio a chanŵio sydd ar dir ger compownd y Clwb Hwylio, nododd cynrychiolydd y Clwb Hwylio bod y clwb yn fodlon cydweithio gyda'r Harbwr Feistr i dacluso'r tir dan sylw ac y byddai'n siom pe byddir yn colli'r cyfleuster.

Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol ei ddymuniad i weld y tir wedi ei dacluso unwaith ac am byth a gyda gobaith erbyn tymor yr haf. Dylid cael canllawiau o'r hyn y gellir gadw ar y tir ynghyd â chyflwyno ctyundeb ffurfiol i leoli cynhwysydd ar y safle.

Gofynnodd Mr Desmond George i gadw y llithrfa ger yr orsaf bad achub yn glir a byddai arwyddion 'CADW CLIR' (KEEP CLEAR) yn cynorthwyo.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Harbwr Feistr a chynrychiolydd y Clwb Hwylio drafod ymhellach a threfnu i glirio'r safle yn ddioed.**

**(viii) Materion Staffio**

Adroddodd yr Uwch Swyddog Harbyrau y bydd Jack Iffla, Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi, yn gadael ei swydd ddiwedd tymor yr haf a chymerwyd y cyfle i dalu teyrnged iddo am ei waith clodwiw a'i wasanaeth i'r harbwr. Fe fyddir yn hysbysebu am weithwyr tymhorol ar gyfer Mehefin i Medi yn fuan ar wefan y Cyngor.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod, diolch a dymuno'n dda i Jack Iffla i'r dyfodol.**

**(ix) Wal y Cei**

Atgoffwyd y Pwyllgor Ymgynghorol bod arddangosfa a sesiwn galw fewn i'w gynnal am 2.00 o'r gloch brynhawn heddiw ac anogwyd Aelodau i fynychu i fedru gweld y cynlluniau a holi cwestiynau pe dymunent.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(x) Tir Comin / tir ystorfa – gwastraff**

O safbwynt yr offer pysgota, addawodd Mr Desmond George y byddai'n fodlon cydweithio gyda'r Harbwr Feistr a staff yr Harbwr er mwyn tacluso'r ardal uchod.

Ategodd yr Uwch Swyddog Harbyrau bod cynlluniau ar y gweill a nodwyd y byddir yn gwneud popeth o fewn eu gallu i glirio'r safle mor fuan ag sy'n bosibl.

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol i'r Gwasanaeth am drefnu i glirio'r safle a gofynnwyd a fyddai modd gosod ffens uchel o amgylch y tir ynghyd â giat bwrpasol i rwystro unrhyw gam ddefnydd a gwaredu anghyfreithlon eto i'r dyfodol.

Mewn ymateb i'r uchod, addawodd yr Harbwr Feistr y byddai'n trafod y cais gyda'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(xi) Ffioedd a Thaliadau 2018/19**

Cyflwynwyd i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod daenlen ariannol a oedd yn hunan esboniadwy ac yn dangos gorwariant a diffyg yn yr incwm ac o ganlyniad byddai angen sicrhau bod y Gwasanaeth yn adnabod cyfleoedd incwm a lleihau gwariant bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Nododd Aelod bod y tywydd anffafriol yn ystod 2017 wedi cyfrannu at leihad yn yr incwm a hyderir y bydd 2018 yn mwy ffafriol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Er bod dyddiad wedi ei bennu (2 Hydref 2018) ar gyfer y cyfarfod nesaf, gofynnwyd a fyddai

modd newid y dyddiad hwn i ddechrau mis Tachwedd.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau drefnu dyddiad ym mis Tachwedd ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 11.55 a.m.

**CADEIRYDD.**

| CYFARFOD | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
|---|---|
| DYDDIAD | 13 Tachwedd 2018 |
| TEITL | Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr |
| AWDUR | Uwch Swyddog Harbyrau |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Aberdyfi.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2018 a mis Hydref 2018, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

**2. Angorfeydd Aberdyfi a Chofrestru Cychod**

2.1 Yn 2018/19 roedd ffigyrau angorfeydd yr Harbwr fel a ganlyn:

2.2 Bu 74 o gychod ar angorfeydd blynyddol yn 2018. Mae hyn yn cymharu â 78 yn 2017 a 79 yn 2016. Er y gostyngiad bychan yn nifer y cychod sydd yn yr harbwr, mae hi’n braf nodi fod y ffigwr hwn wedi aros yn gymharol sefydlog mewn cyfnod o ansicrwydd o ran yr hinsawdd economaidd.

2.3 Yn gyffredinol, wrth gymharu holl Harbyrau Cyngor Gwynedd, bu gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid ym mhob un o'r harbyrau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

2.4 Cofrestrwyd 1066 o Gychod Pŵer yng Ngwynedd yn 2018 o gymharu â 955 oedd wedi'u cofrestru yn 2017. Cofrestrwyd 53 o Gychod yn Harbwr Aberdyfi, yr un nifer â'r flwyddyn ddiwethaf.

2.5 Cofrestrwyd 14 o Gychod pŵer yn Nhywyn o gymharu â 9 yn 2017.

2.6 Cofrestrwyd 924 o gychod dŵr Personol yng Ngwynedd yn 2018. Mae hyn yn gynnydd o 186 cwch o'i gymharu â 2017, pan gofrestrwyd 738. Cofrestrwyd 50 o Fadau Dŵr Personol yn Aberdyfi o gymharu â 28 yn 2017.

2.7 Cofrestrwyd 3 o fadau dŵr Personol yn Nhywyn o'i gymharu â 6 y flwyddyn flaenorol.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd**

3.1.1 Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Y nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu'n berthnasol i

weithgarwch yr harbwr, cymorthyddion mordrwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Aberdyfi.

3.1.2 Rhwng 19 a 21 Medi 2017, cynhaliwyd archwiliad manwl gan archwilwyr yr Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau ar y trefniadau diogelwch penodol a systemau Harbyrau Bwrdeistrefol Gwynedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Diogelwch Morol.

3.1.3 Yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd, derbyniodd y Gwasanaeth adroddiad ynghylch yr archwiliad gan yr archwilwyr allanol ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Ymgynghorol fis Mawrth diwethaf.

3.1.4 Fel yr adroddwyd yn flaenorol, roedd yr archwilwyr o'r farn fod y Gwasanaeth yn gyffredinol yn cydymffurfio â gofynion y cod, ond yn awgrymu mesurau i wella cydymffurfiaeth y Gwasanaeth yn benodol o ran y Deiliad Dyletswydd a'r Person Dynodedig.

3.1.5 O ganlyniad i'r gwelliannau hyn, bydd Cabinet Cyngor Gwynedd, sydd wedi'u hethol yn annibynnol, yn unigol ac ar y cyd, yn cael eu penodi'n 'Ddeiliad Dyletswydd' ar gyfer y Gwasanaeth a Chapten M. Forbes, Harbwrfeistr Conwy fydd y 'Person Dynodedig' gofynnol sydd â'r cymwysterau addas.

3.1.6 Er bod y Cod Diogelwch Morol ar gyfer yr Harbyrau yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Gwasanaeth, atgoffir Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol o'u dyletswydd i gyflwyno sylwadau ar addasrwydd y Cod Diogelwch a derbyn sylwadau ar drefniadau gwaith yr harbyrau er mwyn adolygu'r Cod Diogelwch i sicrhau ei fod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, priodoldeb lleol.

3.1.7 Roedd archwilwyr yr Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau i fod i ailymweld â'r gwasanaeth ym mis Hydref eleni fel dilyniant i'r adolygiad a gynhaliwyd y llynedd, a rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor ynghylch y Cod Diogelwch Morol yn ystod eu hymweliad. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau annisgwyl, bu'n rhaid gohirio'r ymweliad a oedd wedi'i gynllunio, a bydd bellach yn digwydd yn ystod mis Mawrth y flwyddyn nesaf i gyd-fynd â chyfarfod y Pwyllgor ym Mhorthmadog, pan fydd yr archwilwyr yn rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor hwnnw.

4. **Materion Staffio**

4.3.1 Daeth cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi (tymhorol) i ben ar 30 Medi 2018. Fel yr adroddwyd yn y cyfarfod blaenorol, gwerthfawrogwyd y gwaith a wnaed gan Mr Jack Iffla yn fawr yn ystod ei gyfnod gyda'r Gwasanaeth. Mae cyflogaeth cymhorthydd harbwr tymhorol Porthmadog wedi parhau er mwyn sicrhau cymorth â gwaith yr harbwr ar draws Harbyrau Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi. Mae ei gytundeb gwaith wedi'i ymestyn i dri diwrnod yr wythnos, mis ar y tro, ar hyn o bryd.

4.3.2 Mae gan y Gwasanaeth Morwrol saith aelod staff llawn-amser sy'n gweithio ar draws harbyrau Aberdyfi, Abermaw a Phorthmadog, ac un sy'n gweithio'n rhan-amser (gweinyddol). Mae'r gwasanaeth wedi profi cyfnod prysur yn ystod yr haf eleni ac wedi gweld cynnydd yn y gwaith sy'n ymwneud â cham-drin a thrais, ac fe ddioddefodd aelod o staff tymhorol, a oedd yn gweithio yn ardal Porthmadog, ymosodiad corfforol.

4.3.3 Yn ddibynnol ar gyfyngiadau ariannol a chyllidebol, mae'r Gwasanaeth yn ystyried y posibilrwydd o gyflogi cymhorthydd harbwr llawn-amser i weithio yn harbyrau Porthmadog, Aberdyfi ac Abermaw. Bydd y swydd cymhorthydd harbwr yn Aberdyfi fel arall yn dychwelyd i weithio'n llawn-amser ar 1 Ebrill 2019.

**5. Materion Ariannol**

5.1 Mae crynodeb bras o gyllidebau'r harbyrau a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd y chwarter wedi'i atodi.

5.2 Yn ystod y cyfnod hwn bu'n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer:

- Cynnal a Chadw Cymorthyddion Mordwyo a Goleufeydd
- Cynnal a chadw angorfeydd Ymwelwyr
- Cynnal a chadw cwch patrolio'r harbwr
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau.

**5.3 Ffioedd a Thaliadau 2018/19.** O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Aberdyfi, ynghyd â'r ffioedd lansio Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol ar gyfer 2019/20, bwriad y Gwasanaeth yw addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant. Ar hyn o bryd, nid yw'r Gwasanaeth wedi derbyn cadarnhad o'r cyfraddau y dylai eu rhoi ar waith.

6.0 **Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Aberdyfi yn rhoi crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a weithredwyd ac a gododd yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Medi 2018, yn cynnwys y misoedd hynny, gan gynnwys materion cynnal a chadw a digwyddiadau yn ystod y cyfnod perthnasol.

Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

## ADDRODIAD HARBWR ABERDYFI

## CYFRIF INCWM A GWARIANT 2018-19

| | Cyllideb | Gwariant/Incwm hyd at 31.08.2018 | Taflynnu costau hyd at 31.03.2019 | Gor/(tan)wariant |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Gweithwyr | £56,550 | £21,986 | £21,450 | -£13,114 |
| Adeiladau | £19,040 | £2,280 | £10,000 | -£6,760 |
| Cludiant | £620 | £0 | £620 | £0 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | £6,790 | £6,256 | £10,000 | £9,466 |
| Taliadau i Asiantaethau | £0 | £746 | £0 | £746 |
| **Cyfanswm Gwariant** | £83,000 | £31,268 | £42,070 | -£9,662 |
| **Incwm** | -£29,890 | -£22,373 | -£8,143 | -£626 |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi** |
| **DYDDIAD** | **13 Tachwedd 2018** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **W. A. Stockford Harbwrfeistr Aberdyfi** |

H1**. Materion Mordwyo**

H1.1. Pob blwyddyn, mae Tŷ'r Drindod, yr Awdurdod Goleudai Cyffredin, yn cynnal archwiliad annibynnol ar bresenoldeb a swyddogaeth y cymhorthyddion mordwyo a gofnodwyd yn harbyrau Gwynedd a phob dwy flynedd bydd yr un Awdurdod yn cynnal archwiliad annibynnol o'r holl systemau, prosesau a chofnodion a gedwir am y cymhorthyddion mordwyo yn harbyrau Gwynedd gan gynnwys gwirio'r holl gofnodion cynnal a chadw.

H1.2 Ddydd Iau, 12 Ebrill 2018, daeth arolygydd o Dŷ'r Drindod i gynnal archwiliad o'r systemau, y prosesau a'r cofnodion cynnal a chadw a gedwir gan y Gwasanaeth. Yn dilyn yr archwiliad gwelwyd fod yr holl gofnodion ynghylch y marciau mordwyo yn Aberdyfi mewn trefn.

H1.3 Ddydd Mercher, 15 Awst 2018, daeth arolygydd o Dŷ'r Drindod i Harbwr Aberdyfi i gynnal archwiliad o bresenoldeb corfforol a swyddogaeth y cymhorthyddion mordwyo yn yr harbwr. Gwelwyd bod pob un o'r cymhorthion yn Aberdyfi yn iawn ac yn gweithio'n iawn.

H1.4 Ar hyn o bryd, mae dau '*Local Notice to Mariners*' yn weithredol yn Harbwr Aberdyfi

H1.5 Nid yw Bwi Starbord 'Bar' Rhif 1 (Fl G 5s) 52°32.377'N 004°04.860'W a Bwi Starbord Rhif 3 'South Spit' (Qk Fl G) 52° 32.290'N 004° 04.637' W, yn eu lleoliad ar hyn o bryd.

H1.6 Yn ystod y flwyddyn, newidiodd cwrs sianel fordwyo Harbwr Aberdyfi yn sylweddol gan symud tua'r gogledd. Wrth ragweld y byddai'r sianel fordwyo'n symud ymhellach, gosodwyd bwi starbord dros dro yn lle bwi 'South Spit' Rhif 3, gan dynnu sylw at yr angen am y Bwi 'Bar' Rhif 2 tymhorol.

H1.7 Mae'r Gwasanaeth yn archwilio'r sianel yn rheolaidd ar lanw isel i geisio sicrhau bod y cymhorthyddion mordwyo yn y lle mwyaf addas. Gall hyn fod yn waith heriol yn sgil y newidiadau cyson i'r sianel.

H1.8 Wrth i'r sianel fordwyo barhau i symud, bellach mae trefniadau wedi'u rhoi mewn lle â chontractwr angorfeydd i ddychwelyd y Bwi 'South Spit' Rhif 3 i'r sianel ac ail-osod y bwi 'Bar' Rhif 1. Unwaith y bydd hyn wedi'i wneud, bydd y bwi starbord dros dro yn cael ei dynnu o'r sianel.

H1.9 Dymuna'r Gwasanaeth bwysleisio pwysigrwydd cysylltu â swyddfa'r harbwr yn Aberdyfi i gael gwybodaeth gyfredol am ddiogelwch mordwyo.

H2 **Materion Gweithredol**

H2.1 Bu i'r tywydd da a ddaeth â chyfnodau maith o heulwen o ddiwedd mis Ebrill i fis Awst y tymor hwn ddenu nifer o ymwelwyr i'r harbwr a'r traethau cyfagos. Mae'r llifeiriant o ymwelwyr i'r ardal wedi cadw'r staff yn benodol brysur dros gyfnod yr haf.

H2.3 Gwelwyd nifer tebyg i'r llynedd o lestrau yn ymweld o harbyrau lleol, megis Cei Newydd, Aberystwyth, Porthmadog a Phwllheli. Roedd hefyd yn braf gweld llestrau yn ymweld o farina Glasson Basin ar yr Afon Lune, Sir Gaerhirfryn ac o Nice yn Ffrainc.

H3 **Cynnal a Chadw**

H3.1 Gwnaed gwaith cynnal a chadw ar y bwiau sydd yn y sianel fordwyo. Roedd angen amnewid dwy gadwyn godi ar farc starbord rhif 5 a marc starbord rhif 7.

H3.2 Roedd angen prynu Marc Arbennig Melyn newydd (marciwr 4 not) ar ôl archwilio'r bwi presennol, pan welwyd fod hwnnw wedi'i ddifrodi fel nad oedd yn gwneud synnwyr yn ariannol i'w drwsio. Mae'r bwi wedi'i osod yn y sianel fordwyo yn y lleoliad 52°32.469N 004°02.861'W.

H3.3 Yn dilyn archwiliad yn gynharach yn y flwyddyn, cynhaliwyd gwaith cynnal a chadw ar yr angorfeydd ymwelwyr yn yr harbwr. Ar gyfer y tymor nesaf, bydd angen dau fwi angori 'Hippo' newydd a chadwyni codi cysylltiedig ar gyfer yr angorfeydd ymwelwyr.

H3.4 Bydd yr Harbwrfeistr yn cyflwyno'r rhaglen waith cynnal sydd i'w chwblhau yn harbwr Aberdyfi yn ystod y cyfnod mis Hydref 2018 - mis Chwefror 2019. Gofynnir am adborth gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch unrhyw waith arall fydd angen ei ystyried a'i gynnwys yn y rhaglen waith.

H4. **Materion Eraill**

H4.1 **Arwyddion diogelwch.** Ar y cyd â'r RNLI, cynhaliwyd adolygiad manwl o'r holl arwyddion diogelwch yn ardal Aberdyfi a Thywyn. Mewn ymateb i'r archwiliad ac ar y cyd â'r RNLI, mae arwyddion diogelwch bellach wedi'u gosod yn Aberdyfi a Thywyn. Rhagwelir y bydd angen symud yr arwyddion oddi ar eu safle yn ystod y gaeaf, er mwyn lleihau'r potensial y bydd tywydd garw yn eu difrodi.

H4.2 **Llwyfan Cerdded Pren.** Mae mesurau wedi'u rhoi yn eu lle ar ffurf ysgolion tywod i gynorthwyo â mynediad dros y twyni tywod i'r traeth, wrth aros am y rhan o'r llwybr cerdded pren sydd wedi pydru i gael ei waredu, sydd i'w wneud fel rhan o raglen waith y gaeaf.

H4.3 Mae dyfodol y llwybr cerdded pren yn ansicr ar hyn o bryd, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau cyllidebol. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth yn ystyried pob opsiwn posib ac yn ddiolchgar am y cynigion o gymorth sydd wedi'u derbyn ynghylch y strwythur. Yn yr interim, mae'r Gwasanaeth wedi cynnal yr ysgolion tywod i ddarparu mynediad i'r traeth dros y twyni tywod, a bydd yn parhau i wneud hynny.

H4.3 **Tir Comin / Storio - gwastraff.** Cyn i waith gael ei wneud gan y Gwasanaeth, gwnaed cais i'r personau a oedd ag eitemau ar y tir i dacluso eu hardaloedd a gwaredu eitemau

nad oeddynt eu heisiau nac yn eu defnyddio bellach. Mae'n siomedig nodi nad yw hyn wedi'i wneud hyd yma. Yn fwy siomedig byth, mae aelodau penodol o'r cyhoedd yn parhau i waredu deunyddiau gwastraff ar y safle dan sylw.

Rydym wedi cymryd mesuriadau perthnasol o'r ardal er mwyn mynd ati i ffensio. Rydym wedi ceisio arweiniad ynghylch yr oergelloedd sydd wedi'u gwaredu ar y tir a gobeithio y bydd modd gwaredu'r gwastraff asbestos sydd ar y tir erbyn diwedd mis Rhagfyr ac y bydd y ffens wedi'i chodi erbyn diwedd mis Ionawr 2019. Yn ogystal, bydd staff y gwasanaeth yn mynd i'r safle fel rhan o'r rhaglen waith dros y gaeaf, er mwyn clirio unrhyw ddeunyddiau gwastraff a llystyfiant sydd wedi gordyfu.

H4.4 **Ochr y cei.** Mae'r staff yn parhau i fod wedi ymrwymo i wella taclusrwydd ardal yr harbwr. Hyd yma, mae oddeutu 90 cawell pysgota wedi'u tynnu oddi ar ochr y cei. Yn dilyn ymgynghoriad â'r gweithredwyr masnachol sy'n gweithio o'r harbwr ac yn dilyn gwaith i wella'r compownd fel y nodwyd uchod, bydd mwy o gewyll pysgota ac offer yn cael eu symud o ochr y cei i'r compownd.

H4.5 **Cynwysyddion yn yr Harbwr.** Yn dilyn pryderon a godwyd ynghylch cyflwr nifer o'r cynwysyddion a ddefnyddir i storio offer ar dir gyferbyn â'r Clwb Hwylio, rydym bellach wedi cael enwau a chyfeiriadau'r bobl sy'n gyfrifol am gadw offer yn yr harbwr. Mae'r Gwasanaeth Morwrol wrthi'n ceisio arweiniad gan Adain Eiddo'r Cyngor o ran Trwydded ddrafft i reoleiddio math, swm a chyflwr yr offer sy'n cael ei storio ar y tir.

H4.6 **Bryn Llestair (Picnic Island)** Bu'n rhaid cau'r bont dros reilffordd Arfordir y Cambrian sy'n rhoi mynediad i Fryn Llestair, a hynny am resymau diogelwch. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn disgwyl am adroddiad strwythurol ar gyflwr y bont, cyn y gwneir penderfyniad pellach ynghylch ei ddyfodol. Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol ac yn ddiolchgar am y cynigion o gymorth sydd wedi'u derbyn gan sefydliadau lleol o ran cynnal y strwythur.

H5. **Digwyddiadau**

Cynhaliwyd y digwyddiadau a ganlyn yn Harbwr Aberdyfi yn 2018:-

- Digwyddiad a drefnwyd gan y Grŵp Gweithredu Lleol ar Bysgodfeydd (FLAG)
- Dyfi Fest, y dathliadau Gŵyl y Banc mis Awst blynyddol a gynhelir ar ochr y cei.
- Digwyddiadau a gynhaliwyd gan Glwb Hwylio Dyfi, yn unol â'r calendr hwylio
- Digwyddiadau glanhau traethau a gynhaliwyd gan grwpiau megis y Tywyn Beach Guardians, trigolion Aberdyfi a thîm o Beirianwyr Sky TV a gafodd wared ar swm mawr o wastraff traeth rhwng Tywyn ac Aberdyfi.

# ***Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit***

## ***Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations***

| Blwyddyn<br>Year | Harbwr<br>Aberdyfi<br>Harbour | Harbwr<br>Abermaw<br>Harbour | Harbwr<br>Porthmadog<br>Harbour | Harbwr<br>Pwllheli/<br>Hafan | Morfa<br>Bychan | Traethau<br>Gwynedd<br>Beaches | Swyddfa<br>Office | Cyfanswm<br>Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2013 | 16 Aberdyfi<br>10 Tywyn | 55 Abermaw<br>6 Caerddaniel | 36 | 2 Harbwr<br>23 Hafan | 129 | 85 Abersoch<br>4 Machroes<br>6 Morfa Nefyn<br>8 Nefyn<br>2 Trefor<br>4 Aberdaron | 308 | 694 |
| 2014 | 22 Aberdyfi<br>1 Tywyn | 65 Abermaw<br>5 Caerddaniel | 20 | 36 Total Boat Care<br>1 Harbwr<br>47 Hafan | 143 | 88 Abersoch<br>5 Machroes<br>3 Morfa Nefyn<br>6 Nefyn<br>1 Aberdaron | 250 | 693 |
| 2015 | 23 Aberdyfi<br>1 Tywyn | 64 Abermaw a Caerddaniel | 30 | 42 Total Boat Care<br>43 Hafan | 157 | 76 Abersoch<br>1 Machroes<br>9 Morfa Nefyn<br>6 Nefyn<br>1 Aberdaron | 243 | 696 |
| 2016 | 27 Aberdyfi<br>4 Tywyn | 69 Abermaw | 35 | 49 Total Boat Care<br>56 Hafan | 183 | 101 Abersoch<br>20 Machroes<br>4 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>2 Aberdaron | 174 | 734 |
| 2017 | 28 Aberdyfi<br>6 Tywyn | 68 Abermaw | 45 | 55 Total Boat Care<br>65 Hafan | 165 | 122 Abersoch<br>10 Machroes<br>12 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>1 Aberdaron | 151 | 738 |
| 2018 | 50 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 74 Abermaw | 52 | 72 Total Boat Care<br>105 Hafan | 200 | 191 Abersoch<br>8 Machroes<br>3 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>1 Aberdaron | 160 | 924 |

## ***Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit***
## ***Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations***

| Blwyddyn<br>Year | Harbwr<br>Aberdyfi<br>Harbour | Harbwr<br>Abermaw<br>Harbour | Harbwr<br>Porthmadog<br>Harbour | Harbwr<br>Pwllheli<br>Harbour | Morfa<br>Bychan | Traethau<br>Gwynedd<br>Beaches | Swyddfa<br>Office | Cyfanswm<br>Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2013 | 27 Aberdyfi<br>9 Tywyn | 54 Abermaw<br>11 Caerddaniel | 22 | 16 Harbwr<br>60 Hafan | 22 | 92 Abersoch<br>14 Machroes<br>22 Trefor<br>17 Nefyn<br>24 Morfa Nefyn<br>38 Aberdaron | 553 | 981 |
| 2014 | 54 Aberdyfi<br>8 Tywyn | 64 Abermaw<br>11 Caerddaniel | 24 | 118 Total<br>Boat Care<br>8 Harbwr<br>85 Hafan | 19 | 115 Abersoch<br>3 Machroes<br>30 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>21 Trefor<br>19 Aberdaron | 408 | 1001 |
| 2015 | 52 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 71 Abermaw a<br>Caerddaniel | 30 | 99 Total<br>Boat Care<br>5 Harbwr<br>104 Hafan | 14 | 92 Abersoch<br>4 Machroes<br>23 Morfa Nefyn<br>13 Nefyn<br>16 Trefor<br>12 Aberdarom | 449 | 987 |
| 2016 | 58 Aberdyfi<br>7 Tywyn | 81 Abermaw | 37 | 115 Total<br>Boat Care<br>4 Harbwr<br>119 Hafan | 31 | 101 Abersoch<br>71 Machroes<br>27 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>10 Aberdaron | 336 | 1011 |
| 2017 | 53 Aberdyfi<br>9 Tywyn | 66 Abermaw | 37 | 103 Total<br>Boat Care<br>3 Harbwr<br>117 Hafan | 29 | 125 Abersoch<br>40 Machroes<br>48 Morfa Nefyn<br>19 Nefyn<br>11 Aberdaron<br>6 Trefor | 289 | 955 |
| 2018 | 53 Aberdyfi<br>14 Tywyn | 75 Abermaw | 38 | 112 Total<br>Boat Care<br>182 Hafan | 34 | 161 Abersoch<br>34 Machroes<br>53 Morfa Nefyn<br>16 Nefyn<br>5 Aberdaron | 289 | 1066 |

# ***Uned Morwrol / Maritime Unit***

***Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics***

| ***Harbwr<br>Harbour*** | ***Nifer o Angorfeydd<br>Available no of moorings*** | ***Preswylydd<br>Occupancy*** | ***Preswyl yng Ngwynedd<br>Residing in Gwynedd*** | ***Eraill***<br>*Others* |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| *Aberdyfi 2013* | *120* | *80 (66.7%)* | *40 (50.0%)* | *40 (50.0%)* |
| *Aberdyfi 2014* | *120* | *75 (62.5%)* | *35 (46.7%)* | *40 (53.3%)* |
| *Aberdyfi 2015* | *120* | *77 (64.2%)* | *35 (45.5%)* | *42 (54.5%)* |
| *Aberdyfi 2016* | *120* | *79 (65.8%)* | *36 (45.6%)* | *43 (54.4%)* |
| *Aberdyfi 2017* | *120* | *78 (65.0%)* | *36 (46.2%)* | *42 (53.8%)* |
| ***Aberdyfi 2018*** | ***120*** | ***74 (61.7%)*** | ***37 (50.0%)*** | ***37 (50.0%)*** |
| | | | | |
| *Abermaw 2013* | *140* | *92 (65.7%)* | *55 (59.8%)* | *37 (40.2%)* |
| *Abermaw 2014* | *140* | *82 (58.6%)* | *54 (65.9%)* | *28 (34.1%)* |
| *Abermaw 2015* | *140* | *93 (66.4%)* | *63 (67.7%)* | *30 (32.3%)* |
| *Abermaw 2016* | *140* | *88 (62.9%)* | *60 (68.2%)* | *28 (31.8%)* |
| *Abermaw 2017* | *140* | *86 (61.4%)* | *59 (68.6%)* | *27 (31.4%)* |
| ***Abermaw 2018*** | ***140*** | ***69 (49.3%)*** | ***44 (63.8%)*** | ***25 (36.2%)*** |
| | | | | |
| *Porthmadog 2013* | *238* | *162 (68.1%)* | *45 (27.8%)* | *117 (72.2%)* |
| *Porthmadog 2014* | *238* | *157 (66.0%)* | *44 (28.0%)* | *113 (72.0%)* |
| *Porthmadog 2015* | *238* | *140 (58.8%)* | *44 (31.4%)* | *96 (68.6%)* |
| *Porthmadog 2016* | *238* | *129 (54.2%)* | *47 (36.4%)* | *82 (63.6%)* |
| *Porthmadog 2017* | *238* | *135 (56.7%)* | *54 (40.0%)* | *81 (60.0%)* |
| ***Porthmadog 2018*** | ***238*** | ***131 (55.0%)*** | ***54 (41.2%)*** | ***77 (58.8%)*** |
| | | | | |
| *Pwllheli 2013* | *114* | *84 (73.7%)* | *59 (70.2%)* | *25 (29.8%)* |
| *Pwllheli 2014* | *114* | *91 (79.8%)* | *47 (51.6%)* | *44 (48.4%)* |
| *Pwllheli 2015* | *114* | *87 (76.3%)* | *57 (65.5%)* | *30 (34.5%)* |
| *Pwllheli 2016* | *114* | *58 (50.9%)* | *27 (46.6%)* | *31 (53.4%)* |
| *Pwllheli 2017* | *81* | *60 (74.1%)* | *28 (46.7%)* | *32 (53.3%)* |
| ***Pwllheli 2018*** | ***81*** | ***55 (67.9%)*** | ***27 (49.1%)*** | ***28 (50.9%)*** |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Hafan 2013* | *410* | *302 (73.7%)* | *68 (22.5%)* | *234 (77.5%)* |
| *Hafan 2014* | *409* | *293 (71.6%)* | *51 (17.4%)* | *242 (82.6%)* |
| *Hafan 2015* | *409* | *292 (71.4%)* | *56 (19.2%)* | *236 (80.8%)* |
| *Hafan 2016* | *409* | *287 (70.1%)* | *55 (19.2%)* | *232 (80.8%)* |
| *Hafan 2017* | *409* | *306 (74.8%)* | *57 (18.6%)* | *249 (81.4%)* |
| ***Hafan 2018*** | ***409*** | ***292 (71.4%)*** | ***56 (19.2%)*** | ***236 (80.8%)*** |
| | | | | |
| *Doc Fictoria 2013* | *100* | *100 (100.0%)* | *27 (27.0%)* | *73 (73.0%)* |
| *Dco Fictoria 2014* | *100* | *100 (100.0%)* | *25 (25.0%)* | *75 (75.0%)* |
| *Doc Fictoria 2015* | *100* | *100 (100.0%)* | *21 (21.0%)* | *79 (79.0%)* |
| *Doc Fictoria 2016* | *100* | *92 (92.0%)* | *19 (20.7%)* | *73 (79.3%)* |
| *Doc Fictoria 2017* | *100* | *92 (92.0%)* | *16 (17.4%)* | *76 (82.6%)* |
| ***Doc Fictoria 2018*** | ***100*** | ***90 (90.0%)*** | ***21 (23.3%)*** | ***69 (76.7%)*** |
| | | | | |

# *Uned Morwrol a Pharciau Gwledig*

## Ystadegau Cychod Pŵer v's Cychod Hwylio a Rhestr Aros - Powerboats v's Sailing Boats and Waiting List

| *Harbwr/Harbour Marina* | *Cyfanswm Nifer Angorfeydd Total number available moorings* | *Cyfanswm Cychod ar Angorfeydd Total number of boats on mooring* | *Nifer Cychod P ŵer Total number Powerboats* | *Nifer Cychod Hwylio Total number sailing boats* | *Canran (%) Pŵer V's hwylio Percentage Power v's Sail* |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Aberdyfi 13 | 120 | 80 | 54 | 26 | 67.5% Pwer<br>32.5% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 14 | 120 | 75 | 53 | 22 | 70.7% Pwer<br>29.3% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 15 | 120 | 77 | 53 | 24 | 68.8% Pwer<br>31.2% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 16 | 120 | 79 | 55 | 24 | 69.6% Pwer<br>30.4% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 17 | 120 | 78 | 56 | 22 | 71.8% Pwer<br>28.2% Hwylio |
| **Harbwr Aberdyfi 18** | **120** | **74** | **55** | **19** | **74.3 % Pwer<br>25.7% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Abermaw 13 | 140 | 92 | 62 | 30 | 67.4% Pwer<br>32.6% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 14 | 140 | 82 | 54 | 28 | 65.9% Pwer<br>34.1% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 15 | 140 | 93 | 60 | 33 | 64.5% Pwer<br>35.5% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 16 | 140 | 88 | 59 | 29 | 67.0% Pwer<br>33.0% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 17 | 140 | 86 | 55 | 31 | 64.0% Pwer<br>36.0% Hwylio |
| **Harbwr Abermaw 18** | **140** | **69** | **45** | **24** | **65.2% Pwer<br>34.8% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Porthmadog 13 | 238 | 162 | 59 | 103 | 36.4% Pwer<br>63.6% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 14 | 238 | 157 | 54 | 103 | 34.4% Pwer<br>65.6% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 15 | 238 | 140 | 45 | 95 | 32.1% Pwer<br>67.9% Hwylio |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Porthmadog 16 | 238 | 129 | 41 | 88 | 31.8% Pwer<br>68.2% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 17 | 238 | 135 | 42 | 93 | 31.1% Pwer<br>68.9% Hwylio |
| **Harbwr Porthmadog 18** | **238** | **131** | **40** | **91** | **30.5% Pwer**<br>**69.5% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Pwllheli 13 | 114 | 87 | 39 | 48 | 44.8% Pwer<br>55.2% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 14 | 114 | 91 | 36 | 55 | 39.6% Pwer<br>60.4% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 15 | 114 | 87 | 46 | 41 | 52.9% Pwer<br>47.1% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 16 | 114 | 58 | 18 | 40 | 31.0% Pwer<br>69.0% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 17 | 114 | 60 | 19 | 41 | 31.7% Pwer<br>68.3% Hwylio |
| **Harbwr Pwllheli 18** | **114** | **55** | **29** | **26** | **52.7% Pwer**<br>**47.3% Hwylio** |
| | | | | | |
| Hafan Pwllheli 13 | 410 | 302 | 153 | 149 | 50.7% Pwer<br>49.3% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 14 | 409 | 293 | 139 | 154 | 47.4% Pwer<br>52.6% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 15 | 409 | 292 | 138 | 154 | 47.3% Pwer<br>52.7% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 16 | 409 | 287 | 137 | 150 | 47.7% Pwer<br>52.3% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 17 | 409 | 306 | 144 | 162 | 47.1% Pwer<br>52.9% Hwylio |
| **Hafan Pwllheli 18** | **409** | **292** | **150** | **142** | **51.4% Pwer**<br>**48.6% Hwylio** |
| | | | | | |
| Doc Fictoria 13 | 100 | 100 | 37 | 63 | 37.0% Pwer<br>63.0% Hwylio |
| Doc Fictoria 14 | 100 | 100 | 36 | 64 | 36.0% Pwer<br>64.0% Hwylio |
| Doc Fictoria 15 | 100 | 98 | 34 | 64 | 34.7% Pwer<br>65.3% Hwylio |
| Doc Fictoria 16 | 100 | 92 | 34 | 58 | 37.0% Pwer<br>63.0% Hwylio |
| | | | | | |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Doc Fictoria 17 | 100 | 92 | 28 | 64 | 30.4% Pwer<br>69.6% Hwylio |
| **Doc Fictoria 18** | **100** | **90** | **49** | **41** | **54.4% Pwer<br>45.6% Hwylio** |
| | | | | | |
| Cyfanswm 13 | 1122 | 823 | 416 | 407 | 50.5% Pwer<br>49.5% Hwylio |
| Cyfanswm 14 | 1121 | 798 | 372 | 426 | 46.6% Pwer<br>53.4% Hwylio |
| Cyfanswm 15 | 1121 | 787 | 376 | 411 | 47.8% Pwer<br>52.2% Hwylio |
| Cyfanswm 16 | 1121 | 733 | 344 | 389 | 46.9% Pwer<br>53.1% Hwylio |
| Cyfanswm 17 | 1121 | 757 | 344 | 413 | 45.4% Pwer<br>54.6% Hwylio |
| **Cyfanswm 18** | **1121** | **709** | **367** | **342** | **51.8% Pwer<br>48.2% Hwylio** |


# HARBWR ABERDYFI HARBOUR


## Cymhariaeth o Ystadegau Cychod
Comparison of Boat Statistics


| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o Gychod /** Number of Boats | 80 | 75 | 77 | 79 | 78 | 74 |
| **Cyfanswm Hydoedd /** Total LOA | 532.01 | 491.79 | 520.12 | 524.10 | 515.02 | 480.92 |
| **Cyfartaledd Hyd /** Average Length | 6.65 | 6.56 | 6.75 | 6.63 | 6.60 | 6.50 |
| **Cyfanswm Dyfnder /** Total Draught | 62.62 | 57.55 | 58.79 | 57.36 | 58.60 | 50.91 |
| **Cyfartaledd Dyfnder /** Average Draught | 0.78 | 0.77 | 0.76 | 0.73 | 0.75 | 0.69 |







# CYMHARIAETH O YSTADEGAU CYCHOD YM MHOB HARBWR 2018
# COMPARISON OF BOAT STATISTICS AT EACH HARBOUR 2018


| Harbwr<br>Harbour | Nifer o Gychod<br>Number of Boats | Cyfanswm Hydoedd<br>Total Overall Length | Cyfartaledd Hyd<br>Average Length | Cyfanswm Dyfnder<br>Total Draught | Cyfartaledd Dyfnder<br>Average Draught |
|---|---|---|---|---|---|
| **Abermaw** | 69 | 493.36 | 7.15 | 61.21 | 0.89 |
| **Aberdyfi** | 74 | 480.92 | 6.50 | 50.91 | 0.69 |
| **Porthmadog** | 131 | 1055.13 | 8.05 | 131.01 | 1.00 |
| **Pwllheli** | 55 | 416 | 7.56 | 49.11 | 0.89 |
| | | | | | |
| Cyfansymiau holl harbrau<br>Totals of all harbours | 329 | 2445.41 | 29.26 | 292.24 | 3.47 |
| Cyfartaleddau holl harbrau<br>Averages of all harbours | 82.25 | 611.35 | 7.32 | 73.06 | 0.87 |

# Darlun o ystadegau cychod ym mhob harbwr.
# Analysis of boat statistics at each harbour.


**Nifer o Gychod / Number of Boats**





**Cyfanswm Hyd / Total LOA**





**Cyfartaledd Hyd / Average LOA**




**Cyfanswm Dyfnder / Total Draught**





**Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught**



# Approach To Aberdyfi Harbour: Buoyage Information

**FOR ILLUSTRATION PURPOSES**

**NOT TO BE USED FOR NAVIGATION**




**YSM 4 Knots Buoy to passed with the buoy on the starboard side when entering the harbour and on the port side when leaving the harbour**

| | |
|---|---|
| Outer Buoy | Lat 52° 32.000'N Long 004°05.550'W |
| Temporary Starboard | Lat 52° 32.418'N Long 004°04.739'W |
| Bar Buoy No 1 | Currently off Station |
| Bar Buoy No2 | Not on Station (Seasonal Mark) |
| No 3 Buoy 'South Spit' | Currently off station |
| No 5 Buoy | Lat 52° 32.198'N Long 004°04.053'W |
| No 7 Buoy | Lat 52° 32.256'N Long 004°03.408'W |
| YSM 4 Knots | Lat 52° 32.469'N Long 004°02.884'W |

# Aberdyfi Harbour

**Phone 01654 767626**
**Mobile 07879 433148**
**VHF Ch 12 & 16**
**williamstockford@gwynedd.llyw.cymru**

**22nd October 2018**

**Please contact the harbour office at the outer buoy for any updates to this chartlet**